

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Chapel Cottage
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 5 Medi 2022

Dyddiad cyhoeddi: 7 Rhagfyr 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Chapel Cottage, Gresffordd, Wrecsam, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 5 Medi 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i llunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Chapel Cottage yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu yn dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn modd cwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau penodol i gleifion gael sgysiau preifat â staff
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn modd gofalgarg a chyfeillgar mewn ystafelloedd triniaeth a oedd yn cynnal eu hurddas
- Mae'r staff yn parhau i gofnodi ymatebion cleifion i'w cwestiynau sgrinio COVID-19 a gwelsom staff yn tywys cleifion i'r ystafelloedd triniaeth priodol

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod Practis Deintyddol Chapel Cottage yn bodloni'r rheoliadau a safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w cyflawni. Roedd pob ardal yn lân ac yn rhydd rhag unrhyw beryglon gweladwy.

Roedd trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn ddiogel.

Roedd y clinigwyr yn wybodus ac yn broffesiynol ac yn dangos eu dealltwriaeth o ble a sut i gael cyngor a chymorth adolygiad cymheiriaid.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r broses o gofnodi dewis iaith cleifion o fewn cofnodion clinigol

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ystafelloedd triniaeth wedi'u hadnewyddu i safon uchel
- Roedd yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol yn lân, yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol, ac yn addas i'r diben ac roedd y cyfarpar ynddynt wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd da wedi cael eu cwblhau, a oedd yn dangos tystiolaeth o unrhyw newidiadau a wnaed yn sgil canlyniadau'r archwiliad

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan Bractis Deintyddol Chapel Cottage arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, a gwelsom ei fod yn ymroddedig iawn i'r rôl.

Gwelsom fod y tîm staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd a'u bod wedi ymrwymo i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddi priodol ar gael i staff er mwyn cyflawni eu rolau.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod yr holl staff, staff clinigol ac anghlinigol, yn cydweithio'n dda iawn fel rhan o dîm
- Ffeiliau staff sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 42 o ymatebion. Roedd pob un o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am fwy na dwy flynedd. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn dda iawn neu'n dda. Nid atebodd rhai o'r cleifion yr holl gwestiynau.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan gleifion yn cynnwys y canlynol:

“Staff ardderchog, gwasanaethau rhagorol. Mae'r plant bob amser yn hapus i ddod yma!”

“Dwi wastad wedi cael gwasanaeth gwych a chroeso cynnes”

“Da iawn. Dwi wedi bod gyda'r practis ers dros 30 mlynedd”

“Gofal rhagorol”

“Cyfeillgar, effeithlon”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan gleifion yn cynnwys y canlynol:

“Cael apwyntiadau yn haws”

“Mae eisoes yn ddelfrydol”

“Gwasanaeth bob amser yn dda”

“Yn cwmpasu fy holl ofynion”

Cadw'n iach

Diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis mewn ymateb i COVID-19. Er mwyn amddiffyn rhag y risg a achosir gan y feirws, gwelsom beiriannau dosbarthu hylif diheintio dwylo wedi eu gosod mewn lleoliadau strategol ledled y practis. Gwnaethom nodi hefyd fod sgrin wydr amddiffynnol wedi'i gosod yn y dderbynfa. Roedd systemau puro aer yn cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd triniaeth i leihau trosglwyddo ymhellach.

Roedd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith hefyd.

Dywedodd y cleifion wrthym, wrth fynychu'r practis, ei bod yn amlwg iawn bod gweithdrefnau ar waith sy'n cydymffurfio â gofynion COVID-19.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn parhau i gofnodi ymatebion cleifion i gwestiynau sgrinio COVID-19 a gwelsom staff yn tywys cleifion i'r ystafelloedd triniaeth.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cadarnhau bod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynglŷn â sut i gadw'r geg a'r dannedd yn iach.

Gwelsom arwyddion 'Dim Smygu' yn y practis, sy'n cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau i gleifion gael sgysiau preifat â staff.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd un claf wrthym:

“Bob amser yn cael fy nghroesawu a fy nhrin â pharch”

Dywedodd pob claf eu bod o'r farn bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer triniaeth pan oedd angen cymorth arnynt. Dywedodd pob claf wrthym hefyd fod pethau bob amser yn cael eu hegluro iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall.

Gwelsom y staff yn darparu gofal i'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus, a siaradwyd â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a chymwynasgar. Cadwyd drysau i

ystafelloedd triniaeth ar gau yn ystod triniaethau. Gwnaethom nodi bod ffenestr glir rhwng un ystafell driniaeth a'r man dihalogi, ac fe wnaethom argymhell y dylid cymylu'r ffenestr er mwyn cynnal preifatrwydd cleifion ymhellach. Trefnodd rheolwr y practis ar unwaith i'r ffenestr gael ei chymylu. Cawsom dystiolaeth ffotograffig o hyn ar ôl yr arolygiad.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis un nyrs ddeintyddol amser llawn sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, sy'n helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym y byddai'r practis yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith a/neu fformat a bod cyfieithydd ar gael iddynt.

Gwelsom fod y Naw Egwyddor, fel y'u hamlinellwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos yn ystafell y staff a'r man aros. Mae'r Naw Egwyddor yn berthnasol i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y dylai cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac roedd wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r man aros.

Mae gan y practis daflen gwybodaeth i gleifion sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.¹

Gwelsom fod posteri a thafenni gwybodaeth amrywiol wedi'u harddangos a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol.

Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am gost triniaethau deintyddol ar gael wrth y dderbynfa ac yn y man aros.

Gwelsom fod cynlluniau ac opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welwyd. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gwybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Gwelsom fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser. Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amseroedd eu hapwyntiadau.

¹ Mae Rheoliad 6 ac Atodlen 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol mewn taflen gwybodaeth i gleifion.

Cadarnhaodd 35 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt, dywedodd chwech wrthym ei bod yn weddol hawdd, a dywedodd un wrthym nad oedd yn hawdd iawn.

Dywedodd 40 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddynt broblem ddeintyddol frys a dywedodd dau nad oeddent. Roedd rhif brys ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arferol ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos wrth y brif fynedfa ac wedi'i ddarparu ar wefan y practis, yn y neges peiriant ateb ac yn y daflen gwybodaeth i gleifion.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom adolygu cofnodion naw claf a chanfod eu bod yn fanwl ac o safon dda.

Gwelsom dystiolaeth o opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod pob claf yn cydsynio i driniaeth.

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y tîm clinigol yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth a chadarnhawyd eu bod yn cymryd rhan, cymaint ag y dymunant, mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Dywedodd 39 o gleifion wrthym eu bod yn teimlo y gallant gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser cywir.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn unol â'r datganiad o ddiben.²

Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi ymrwmo i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Oherwydd cyfyngiadau'r adeilad a'r lle cyfyngedig, mae'r ddwy ystafell driniaeth wedi'u lleoli ar y llawr cyntaf ar hyn o bryd, sydd ond yn hygyrch trwy res o risiau. Dywedwyd wrthym fod gan y practis gynlluniau ar waith i ymestyn y practis gyda'r

² Mae Rheoliad 5 ac Atodlen 1 i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol mewn datganiad o ddiben.

bwriad o wella hygyrchedd i gleifion ag anawsterau symudedd drwy ddarparu ystafell driniaeth ar y llawr daear.

Gwranddo a dysgu o'r adborth

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Roedd hon wedi'i harddangos yn y man aros. Roedd manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen gwybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben.

Gwnaethom nodi nad oedd y weithdrefn yn cynnwys manylion Gweithio i Wella'r GIG.³ Daethom â hyn i sylw rheolwr y practis, a drefnodd ar unwaith i'r weithdrefn gael ei diwygio.

Gwnaethom adolygu polisi'r practis ar gyfer delio â chwynion ac, ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu cofnodi a'u monitro mewn llyfr pryderon a gedwir gan staff y dderbynfa.

Buom yn trafod y mecanwaith ar gyfer mynd ati i geisio adborth gan gleifion, a wneir trwy ddarparu holiaduron copi caled i gleifion ar ddiwedd pob triniaeth. Caiff dadansoddiad o adborth ei baratoi gan reolwr y practis a'i drafod â'r tîm deintyddol.

³ Mae [Gweithio i Wella](#) yn broses ar gyfer trin cwynion, honiadau a digwyddiadau sy'n cael eu galw gyda'i gilydd yn "bryderon".

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff a phobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg.

Roedd grisiau'n arwain yn syth i fyny at yr ystafelloedd triniaeth a'r man dihalogi. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y gofynnir i staff a chleifion aros ar y landin pan fydd pelydrau-X yn cael eu cymryd. Er nad yw cleifion yn cael eu gadael heb neb yn gofalu amdanynt a bod nyrs deintyddol bob amser gyda nhw, fe wnaethom argymhell cau'r grisiau pan fydd pelydrau-X yn cael eu cymryd. Trefnodd rheolwr y practis ar unwaith i rwystr gael ei brynu a'i osod. Rhoddwyd tystiolaeth ffotograffig i ni yn syth ar ôl yr arolygiad i gadarnhau bod y gwelliant gofynnol wedi'i roi ar waith.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd pob claf a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant tân.

Roedd allanfeydd brys i'w gweld ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos.

Roedd gan y practis ystod o bolisiau a gweithdrefnau yn ogystal ag asesiadau risg amrywiol ar waith, megis tân, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom ein sicrhau bod y safle'n addas i'r diben, a gwelsom ddigonedd o ddogfennau a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i staff, ymwelwyr a chleifion wedi'u hystyried.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ardal benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân iawn, wedi'i drefnu'n dda, a gyda digon o offer ac yn rhydd o annibendod.

Gwelsom fod y trefniadau dihalogi yn foddhaol. Dangosodd y staff y broses ddihalogi a chanfuom y canlynol:

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddiwyd ar gyfer glanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da
- Roedd offerynnau'n cael eu storio'n briodol ac roedd dyddiad arnynt
- Roedd digon o gyfarpar diogelu personol i amddiffyn staff rhag anafiadau a/neu heintiau
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi
- Roedd cynwysyddion storio offer yn gadarn ac yn ddiogel ac wedi'u labelu'n glir fel rhai budr neu lân

Gwelsom fod y gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offer yn unol â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf.

Roedd archwiliadau rheoli heintiau wedi'u cwblhau gan ddefnyddio offerynnau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys offeryn archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Gwnaethom gydnabod hyn fel arfer da oherwydd cwmpas cynhwysfawr yr archwiliad.

Roedd rhaglen gynnal a chadw ddyddiol ar waith ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr cofnodi ar waith i gofnodi gwiriadau diogelwch yr awtoclaf ar ddechrau a diwedd y dydd.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at hylendid dwylo, trin a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau, a hyfforddiant perthnasol.

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau o offer miniog. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio hepatitis B ar gyfer yr holl staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag feiryssau a gludir yn y gwaed.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad

yw'n beryglus (cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i wahanu yn y bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ddangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Gwelsom fod y diffibriliwr yn cael ei gadw mewn cwpwrdd ger y dderbynfa a'r man aros. Fodd bynnag, nid oedd y diffibriliwr wedi'i nodi'n glir. Gwnaethom gynghori rheolwr y practis i arddangos arwydd diffibriliwr priodol ar ddrws y cwpwrdd. Trefnodd rheolwr y practis ar unwaith i arwydd priodol gael ei brynu. Yn y cyfamser, trefnodd rheolwr y practis i'r diffibriliwr gael ei osod ar wal yn y dderbynfa a'r man aros. Cawsom dystiolaeth ffotograffig, yn syth ar ôl yr arolygiad, yn dangos bod y diffibriliwr wedi'i osod ar y wal.

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad lle mae modd cael mynediad atynt ar unwaith yn achos argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau a'r cyfarpar a ddefnyddir mewn achos brys i sicrhau eu bod yn aros mewn dyddiad ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â safonau a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd polisi ar waith yn ymwneud ag archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Dangosodd y staff eu gwybodaeth am y gweithdrefnau i'w dilyn os bydd argyfwng meddygol neu pe bai'n rhaid iddynt adrodd am ddigwyddiad yn ymwneud â meddyginiaeth.

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

Roedd polisiau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd y polisiau'n cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff o'r camau gweithredu angenrheidiol pe bai mater diogelu'n codi.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Enwebwyd aelod o staff fel arweinydd diogelu ac roedd yn gallu trafod y polisiau a'r gweithdrefnau yn fanwl gyda ni, yn ogystal â senarios amrywiol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon yn ymwneud â gwaith yn uniongyrchol â rheolwr y practis a'u bod yn hyderus iawn y byddai'n gweithredu ar bryderon.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a gynhaliwyd ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a/neu gynnal gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

Gwnaethom gadarnhau hefyd fod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom y cyfleusterau clinigol a chanfod eu bod yn cynnwys offer perthnasol. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus ac roeddent wedi cael eu hadnewyddu i safon uchel yn ddiweddar.

Roedd yr holl offer pelydr-X wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac yn gweithio'n dda. Roedd trefniadau ar waith i gefnogi'r defnydd diogel o offer pelydr-X ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfoes ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn ac asesu cleifion, rhoi diagnosis iddynt, a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisiau a gweithdrefnau.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd yn amlwg bod staff y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod archwiliadau wedi'u cwblhau megis croes-heintio, nodiadau clinigol, ansawdd pelydr-X, hylendid dwylo a gwastraff clinigol.

Dywedodd y staff wrthym fod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol wedi'u cynnal, sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Gwelsom fod y clinigwyr yn rhagweithiol, yn wybodus ac yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn deall ble a sut i gael cyngor a chymorth adolygiad gan gymheiriaid.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu

Roedd y dull storio gwybodaeth cleifion yn briodol, gan sicrhau diogelwch a diogeled data personol. Er enghraifft, roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu cadw'n ddiogel ac roedd copiâu wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu cadw'n

rheolaidd. Roedd mynediad i sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn gynnil. Roedd polisi diogelu data wedi'i sefydlu i hysbysu'r staff am yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt.

Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion naw claf. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y staff yn cadw cofnodion clinigol da, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Roedd yr holl gofnodion a adolygwyd gennym yn unigol ac yn cynnwys dynodwyr cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros fynychu. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi yn y nodiadau clinigol. Trafododd y clinigwyr enghreifftiau o sefyllfaoedd lle darparwyd cyfieithwyr. Rydym yn argymhell bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi yn eu cofnodion clinigol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ar waith.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, a gwelsom ei fod yn ymroddedig iawn i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Roedd llawer o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers peth amser ac roedd perthynas dda rhyngddynt.

Roedd y staff yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd pob aelod o staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisiau a gweithdrefnau. Gwelsom fod y staff wedi llofnodi'r polisiau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol.

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd ganddynt yswiriant indemniad priodol. Roedd gan y practis hefyd dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol ar gael.

Gweithlu

Roedd gan y staff gontract cyflogaeth. Gwelsom hefyd fod rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn cynnwys hyfforddiant a pholisiau a gweithdrefnau perthnasol. Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal hefyd.

Roedd yr holl staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant ar ystod o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac roeddent yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal a gwelsom fod cofnodion manwl o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw ar ffeil.

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau fel y nodir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Chapel Cottage

Dyddiad yr arolygiad: 6 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Chapel Cottage

Dyddiad yr arolygiad: 6 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rydym yn argymhell bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi mewn nodiadau clinigol.	Safonau lechyd a Gofal: 4.2 Gwybodaeth i gleifion 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Rydym bellach wedi cynnwys dewis iaith y claf yn nhemplodi ein nodiadau archwilio claf ac wedi trafod hyn mewn cyfarfod practis. Bydd nodiadau o iaith y claf yn cael eu hychwanegu yn ystod ei apwyntiad.	Alison Fisher Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Alison Fisher

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 17/10/2022